CLEDWYN JONES yn cofio

# John Glyn Davies a gofiodd y plant

Y MAE bron pawb a anwyd cyn yr ail ryfel byd yn gyfarwydd â *Cerddi Huw Puw*, *Cerddi Portdinllaen* a *Cerddi Robin Goch*, ond nid yw'r person a gyhoeddodd y cyfrolau hyn mor adnabyddus i ni. Yr oedd John Glyn Davies yn ysgolhaig, yn fardd, yn gerddor ac yn arbenigwr ym maes llongau hwyliau, morwriaeth, *shanties* a chaneuon môr.

Yn y dyfodol agos, cyhoeddir gan Wasg Gomer, gasgliad cyflawn o'r caneuon a gyhoeddodd J. G. Davies mewn tair cyfrol yn y dauddegau a'r tridegau, ac efallai mai da o beth fyddai rhoi braslun o'i hanes ar gyfer oedolion a phlant sy'n debygol o wneud defnydd o'r gyfrol.

Ganwyd ef yn Lerpwl, ac ef oedd yr hynaf o chwech o blant a fagwyd ar aelwyd Gymraeg. Marsiandwr te llewyrchus oedd y tad, John Davies, ac er mai bratiog oedd ei Gymraeg, ni wrthwynebodd i'w blant siarad Cymraeg ar yr aelwyd, a mynychu gwasanaethau Cymraeg yn y capel. Parchai John Glyn Davies ei dad oherwydd ei ddeallusrwydd, a phorai'r mab yn llyfrgell ei dad, er mai llyfrau Saesneg oedd y mwyafrif ohonynt.

Fel ymhob teulu, yr oedd dylanwad y fam yn drwm ar John Glyn Davies. Yr oedd hi o dras hollol wahanol i'w dad. Merch oedd hi i'r enwog John Jones, Talysarn, y pregethwr Methodistaidd a oedd yn enwog trwy Gymru yn hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf. Yn rhyfedd iawn, bu farw John Jones yn y dyffryn lle cychwynnodd rhan o'r daith deuluol.

Yma, yn Nyffryn Nantlle, yn fferm Ffridd Baladeulyn, y ganed Angharad James, *c.*1680. Derbyniasai Angharad James addysg lawer gwell na'r cyffredin, a chredir mai'r person a fu'n gyfrifol am addysgu'r ferch oedd Rheithor plwyf Llanllyfni, sef y Parch Foulk Price a fu farw yn 1706.

Yn sicr, nid oedd ysgolion Thomas Gouge na'r S.P.C.K. wedi cyrraedd troed yr Wyddfa yn ystod plentyndod Angharad James; ond ymddengys ei bod hi'n hyddysg mewn Lladin, yn delynores fedrus, yn gerddores ddawnus ac yn brydydd dyfeisgar.

* * * *

BETH AR y ddaear sydd a wnelo Angharad James â John Glyn Davies? Pan oedd yn ugain oed, priododd Angharad â William Pritchard, gŵr trigain oed, a symudodd y ddau i Benamnen, ger Dolwyddelan. Ganwyd nifer o blant iddynt, gan gynnwys yr ieuengaf, Catherine.

Un o ferched Catherine oedd Elinor Llwyd a briododd John Jones, Tan-y-Castell. Ganwyd naw o blant iddyn nhw, a'r enwocaf yn ddi-os, oedd John Jones, Talysarn. Mab arall oedd y Parch Dafydd Jones, Treborth. Ymfudodd y gweddill o'r teulu i Cumbria, Wisconsin, U.D.A.

Pan sefydlodd y Parch John Jones yn Nhalysarn, priododd â Frances Edwards, merch fferm Taldrwst. Ganwyd deg o blant iddyn nhw, gan gynnwys Gwen, a briododd John Davies, y marsiandwr llewyrchus o Lerpwl. Ganwyd saith o blant iddyn nhw.

Yr hynaf oedd John Glyn Davies, yna Capt. Frank Davies a hwyliai'r byd mewn llongau hwyliau ac a ddysgodd ar ei gof nifer sylweddol o ganeuon môr, a *shanties*; y trydydd brawd oedd yr heddychwr enwog George M. Ll. Davies; a'r pedwerydd oedd Stanley Davies. Anfarwolwyd y tair chwaer yn un o ganeuon poblogaidd JGD, 'Gwen a Mair ac Elin'.

Ychydig iawn o addysg ffurfiol a dderbyniodd John Glyn Davies. Ysgol breifat oedd y gyntaf a fynychodd gyda dwy chwaer, y Misses Witherspoon, yn ceisio trosglwyddo addysg trwy gyfrwng y Saesneg i fachgen oedd bron yn uniaith Gymraeg.

Ar ôl hynny, aeth i'r Liverpool Institute, lle yr arhosodd hyd nes oedd yn ddwy ar bymtheg oed. Dengys y gwobrau a dderbyniodd yn yr Institute ei fod yn ddisgybl hynod ddeallus, ond yr oedd bywyd busnes yn llawer pwysicach i'r teulu na bywyd academaidd.

* * * *

OND SÔN yr oeddwn i am ddylanwad y fam, Gwen Davies, ar ei mab. Magwyd hi ar aelwyd grefyddol a hapus, ond aelwyd serch hynny a berthynai i'r cyfnod trychinebus hwnnw yn hanes Cymru, cyfnod a gredai nad oedd yn bosibl 'dod ymlaen yn y byd' heb ddysgu siarad Saesneg.

Yr oedd yn gyfnod hefyd a welodd dyfiant dosbarth canol snobyddlyd yng Nghymru a gredai'n ddiffuant y byddai'r dosbarth canol yn bwyta ar wahân i'r llafurwyr yn y nefoedd!

Anfonwyd Gwen i Lundain i ddysgu Saesneg a nodweddion arbennig y dosbarth canol Seisnig. Er hyn i gyd, Cymraes oedd Gwen. Ymddengys na fu erioed yn hapus iawn yng nghwmni Saeson, ac er y gallai siarad Saesneg yn rhugl, Cymraeg ei thad oedd ei hoff iaith, Cymraeg y pulpud. Ei harwyr oedd pregethwyr Cymraeg mawr y cyfnod, ac yr oedd yn aelod selog o'r capel Cymraeg yn Lerpwl.

Yn ei lyfr, *Nationalism as a Social Phenomenon* (tud. 62) cyfeiria J. Glyn Davies at ei fam fel gwraig '. . *whose instincts and capacities were highly literary . . . she knew some of Eben Fardd's pieces by rote, and most of the hymn book. . . . She never had the slightest interest in Welsh history or Welsh music, although she had an unusual musical memory, and knew two oratorios by heart. . . .*'

Teimlaf, felly, bod J. Glyn Davies wedi etifeddu nid yn unig ddeallusrwydd cynhenid ei dad ond yn sicr y deallusrwydd arbennig a dderbyniasai gan ei fam, ac a âi yn ôl genedlaethau i Angharad James.

* * * *

DYMA, YN ddi-os y prif ddylanwadau ar ei gymeriad a'i bersonoliaeth. Ond pam, ys gwn i, y dynfa tuag at y Gymraeg a'r Cymry? Yn gyntaf, rhamant Llŷn — o wrando ar ei dad yn adrodd hanesion ei blentyndod pan âi yno ar ei wyliau; ac yn ail, Cymreictod diamheuol ei fam. Ond, mi dybiwn i, yr oedd dylanwadau eraill.

Y mae'n amlwg bod John Glyn Davies yn ieithydd wrth natur. 'Lleibiai i'w gyfansoddiad iaith ar ôl iaith . . .' ac yn gynnar iawn, ymddiddorai yn yr iaith Gymraeg dan amgylchiadau anodd.

Yn 1884, pan gynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Lerpwl, naturiol oedd i brif arweinwyr y genedl gyfarfod yng nghartref y marsiandwr cyfoethog John Davies. Yma y daeth y bachgen pedair ar ddeg oed i gysylltiad â'r archdderwydd Clwydfardd, ac y clywodd gan ei fam am y mesurau cymhleth a ddefnyddiai'r beirdd hyn. Enynnwyd ei ddiddordeb, ond oherwydd agwedd sarhau ei dad tuag atynt, diffoddodd y fflam.

Wrth bori yn llyfrgell ei dad darganfyddodd lyfr a ysgrifennwyd gan Idris Fychan, yn trafod y gelfyddyd o ganu gyda'r tannau. Gwelodd, am y tro cyntaf erioed, y mesurau caeth mewn print a daeth i gysylltiad â hen alawon Cymreig nas clywodd erioed o'r blaen.

Y llyfryn hwn a ail-enynnodd ei ddiddordeb yn y mesurau caeth, ac a achosodd iddo sylweddoli bod ei Gymraeg yn ddiffygiol, a bod angen astudiaeth fanwl i ddeall mesurau cerdd dafod.

* * * *

YR OEDD y dylanwadau uchod i gyd yn bwysig, ond heb os, y dylanwad pwysicaf ohonynt oll oedd y gwyliau a dreuliodd yn Llŷn. Dyma oedd y prif symbyliad a roddodd iddo ddealltwriaeth newydd o'r iaith a'r bobl.

Yn 1888 y daeth i gysylltiad â'r melinydd deallus, Richard Roberts, a drigai yn y Felin, Edern. Yr oedd Richard Roberts yn naturiaethwr ac yn fardd deallus a dysgedig. Ef, rwy'n siwr, a blannodd yn y gŵr ifanc, yr awydd i gyfansoddi barddoniaeth rydd a chaeth.

Nid oes gofod mewn erthygl fer fel hon i drafod bywyd a gwaith y gŵr amryddawn hwn yn ei gyfanrwydd, ond ar ôl gweithio mewn swyddfa llongau yn Lerpwl, treuliodd rai blynyddoedd yn Seland Newydd cyn dychwelyd i'r wlad hon.

Ar gais Tom Ellis, A.S., gweithiodd yn galed fel llyfrgellydd yn Aberystwyth yn sefydlu ein Llyfrgell Genedlaethol. Anhapus iawn fu ci arhosiad yno, a phenodwyd ef yn ddarlithydd yn Adran Gelteg Prifysgol Lerpwl, lle yr arhosodd hyd ei ymddeoliad yn 1940.

Yn 1955 cyhoeddodd gasgliad o'i farddoniaeth, *Cerddi Edern*. Ysgrifennodd y gerdd gyntaf yn 1899, a'r olaf yn 1953, gyda chanran uchel rhwng 1940–1953. Y mae yma ambell gerdd ar ffurf cywydd deuair hirion, 'Cywydd i Leyn', 'Rhyd y Bedd' a 'March y Mieri', a hanner dwsin o englynion.

Dengys y cerddi hyn ei feistrolaeth ar gerdd dafod a'r cynganeddion. Cerddi Llŷn yw'r mwyafrif o'r rhain, yn ymwneud â natur, trigolion y fro a morwyr y rhan yma o Wynedd. Yn eu plith ymddengys rhai trawiadol a chofiadwy iawn fel 'Teg oedd yr Awel', 'Melin Edern', 'William Jones', ac eraill.

Cynnyrch 'cyfnod rhamantaidd' dechrau'r ganrif yw'r cerddi hyn — cerddi personol iawn ac unigryw. Ni phoenai am orgraff, a barnai ef bod orgraff newydd Syr John Morris-Jones yn rhwystr i ysgrifenwyr.

Ar ddiwedd ei oes, mewn llythyr i'w gyfaill J. O. Williams, cyfeiria at Lŷn, crud ei Gymreictod, mewn geiriau trawiadol iawn, 'Mae'r swyn yn dal o hyd wrth gofio'n ôl . . .' Felly, cerddi chwithdod yw 'Cerddi Edern', chwithdod am yr hyn a fu, syndod ieuenctid wrth deimlo '. . . cyfaredd ym mhob careg (*sic*), ym mhob blewyn glas . . . a sŵn yr afon yn fwy swynol fyth. A chlywed Cymraeg o enau pawb — yr oeddwn yn gwirioni . . .'

Agweddau ar hiraeth yw llawer o'r cerddi a ymddengys yn *Cerddi Edern*. Meddai W. J. Gruffydd yn ei ragymadrodd i'w *Flodeugerdd Gymraeg* (1932): 'Hiraeth yw testun pob prydyddieath, neu o leiaf y brydyddiaeth honno a elwir gennym yn rhamantus'.

A cherddi rhamantus yn ystyr lenyddol y gair yw'r cerddi syml a phersonol hyn. Onid yw